



Astudiaethau Gweledol

472-586X (Print) 1472-5878 (Ar-lein) Tudalen hafan y cyfnodolyn: http://
www.tandfonline.com/loi/rvst20

# Methodolegau gweledol, tywod a seicdreiddio: defnyddio technegau cyfranogol creadigol i archwilio profiadau addysgol myfyrwyr aeddfed a phlant mewn gofal

Dawn Mannay, Eleanor Staples a Victoria Edwards

**I ddyfynnu'r erthygl hon:** Dawn Mannay, Eleanor Staples a Victoria Edwards (2017) Methodolegau gweledol, tywod a seicdreiddio: defnyddio technegau cyfranogol creadigol i archwilio profiadau addysgol myfyrwyr aeddfed a phlant mewn gofal, Astudiaethau Gweledol, 32:4, 345-358, DOI: 10.1080/1472586X.2017.1363636

Dolen i'r erthygl hon: https://doi.org/10.1080/1472586X.2017.1363636

Mae’r Telerau ac Amodau llawn ar gyfer cyrchu a defnyddio ar gael yn
http://www.tandfonline.com/action/journalInformation?journalCode=rvst20

Astudiaethau Gweledol, 2017 Cyf. 32, Rhif 4, 345-358,
https://doi.org/10.1080/1472586X.2017.1363636

# Methodolegau gweledol, tywod a seicdreiddio: defnyddio technegau cyfranogol creadigol i archwilio profiadau addysgol myfyrwyr aeddfed a phlant mewn gofal.

DAWN MANNAY, ELEANOR STAPLES A VICTORIA EDWARDS

Mae ymchwil gwyddor gymdeithasol wedi gweld symudiad cynyddol tuag at ddulliau gweledol o gynhyrchu data. Fodd bynnag, mae rhai technegau gweledol yn cael eu tanbrisio o hyd oherwydd eu cysylltiad â seicdreiddio; ac amharodrwydd i ymgysylltu â dulliau wedi'u llywio gan seicdreiddio y tu allan i leoliadau seiliedig ar therapi. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r dull 'creu bwlch tywod', a ddatblygwyd o ymagwedd seicdreiddiol y 'dechneg creu byd'. Mae'r dull 'creu blwch tywod' yn rhoi cyfle i gyfranogwyr greu golygfeydd tri dimensiwn mewn blychau tywod, gan ddefnyddio ffigurau bychain a gwrthrychau pob dydd. Cyflwynir data o ddwy astudiaeth a gynhaliwyd yng Nghymru, y DU. Mae'r cyntaf yn archwilio profiadau myfyrwyr aeddfed o addysg uwch, ac mae'r ail yn archwilio profiadau addysgol plant a phobl ifanc sydd mewn gofal cyhoeddus. Mae'r papur yn dadlau y gellir addasu gwaith seicdreiddiol i greu offeryn ymholi ansoddol unigryw, gwerthfawr a moesegol; ac yn dangos sut oedd 'creu blwch tywod' yn cynnig cyfleoedd i ymladd yn erbyn cynefindra, galluogi fframweithiau cyfranogol, a chyfrannu at bolisi ac ymarfer gwybodus.

## CYFLWYNIAD

Mewn ymchwil ansoddol, yn aml mae angen deall unigolion fel 'cynhyrchion eu bydoedd seicig unigryw eu hunain a bydoedd cymdeithasol a rennir ar yr un pryd' (Gadd a Jefferson 2007, 4); a gall y ddealltwriaeth hon fod yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda chymunedau ymylol. Er enghraifft, mae myfyrwyr aeddfed yn wynebu nifer o rwystrau seicolegol a strwythurol cymhleth rhag addysg uwch, a nodweddir eu teithiau yn aml gan ddyheadau cychwynnol a siomedigaethau diweddarach, pan fydd ffactorau dosbarthiadol, rhyweddol a pherthynol yn gwrthdaro â hunaniaeth myfyrwyr ac yn cyfrannu at y ffaith eu bod yn tynnu'n ôl o'r byd academaidd (Currie, Harris, a Thiele 2000; Edwards 1993; Garland 1994; James 1995; Reay, Crozier, a Clayton 2010; Walkerdine, Lucey, a Melody 2001).

---

Mae Dr Dawn Mannay yn Uwch Ddarlithiwr Gwyddorau Cymdeithasol (Seicoleg) yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud â dosbarth, addysg, rhywedd ac anghydraddoldeb; ac mae'n defnyddio dulliau gweledol, naratif a chreadigol o gynhyrchu a lledaenu data yn ei gwaith. Mae Dr Eleanor Staples yn Gydymaith Ymchwil yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, yn y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE). Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd, yn enwedig plant mewn gofal. Mae hefyd yn ymddiddori mewn damcaniaethau yn ymwneud â rhywedd, mamolaeth a dulliau creadigol. Mae Victoria Edwards yn ymgeisydd PhD a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei hymchwil ddoethurol yn archwilio perthnasoedd cymdeithasol pobl ifanc sy'n chwarae gemau fideo, gan ddefnyddio dulliau creadigol a gweledol.

© 2017 Yr Awdur(on). Cyhoeddwyd gan Informa UK Limited, sy'n masnachu fel Taylor & Francis Group. Erthygl Mynediad Agored yw hon a ddosberthir o dan delerau Trwydded Priodoliad-Anfasnachol-Dim Gwaith Deilliadol Comin Creu (http://creativecommons.org/ licenses/by-nc-

nd/4.0/), sy'n caniatáu ailddefnyddio, dosbarthu, ac atgynhyrchu anfasnachol mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod y gwaith gwreiddiol yn cael ei ddyfynnu'n briodol, ac nad yw'n cael ei newid na'i drawsffurfio, ac ni ychwanegir ato mewn unrhyw ffordd.

Yn yr un modd, mae plant a phobl ifanc mewn gofal cyhoeddus yn profi rhwystrau seicolegol a strwythurol deuol rhag cyflawniad addysgol. Maent yn agored i anfanteision sefydliadol yn ymwneud â'u profiad o ofal; ac mae llawer yn dod ar draws gofalwyr proffesiynol neu ofalwyr eraill anghefnogol, arferion a stigma sy'n gysylltiedig â'u statws 'derbyn gofal' (McLeod 2010). Yn ogystal, mae llawer o blant a phobl ifanc yn profi trawma sy'n ymwneud â chamdriniaeth neu esgeulustod, sy'n achosi iddynt gael eu symud oddi wrth eu teuluoedd biolegol, yn ogystal ag ymdeimlad o golli teulu, ffrindiau, cartref, a'r cyfarwydd.

Nid yw'n ddigon i nodir anawsterau hyn; mae angen i ni chwilio am gyfleoedd i ddeall byd goddrychol y cyfranogwr. O ran myfyrwyr aeddfed, mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cwblhau eu hastudiaethau, yn hytrach nag ehangu'r pwynt mynediad yn unig. O ran plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gall adroddiadau goddrychol o'u profiadau addysgol lywio trafodaethau cyffredinol o bosibl, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar eiriau a syniadau ymchwilwyr, gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi; yn hytrach na rhai'r plant a'r bobl ifanc eu hunain (Winter 2006; McLeod 2007). Trwy ganolbwyntio ar adroddiadau oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (neu sy'n gweithio arnynt), mae'n annhebygol y bydd newidiadau strwythurol a sefydliadol a fydd o fudd i'w bywydau mewn ffordd ystyrlon, yn cael eu gwireddu.

O ganlyniad, mae'n bwysig defnyddio dulliau ymchwil sy'n caniatáu ar gyfer goddrychedd, gan wrando ar adroddiadau unigol i gynnig cyfle i ddatblygu dealltwriaeth fwy cywir, cymhleth a gwahaniaethol, sy'n gallu cyfrannu at wneud 'penderfyniadau polisi gwybodus yn hytrach nag anwybodus' (Reay 2004, 1020). Bydd yr adrannau canlynol yn trafod y methodolegau creadigol a fabwysiadwyd gennym mewn astudiaethau gyda myfyrwyr aeddfed (n = 9) a phlant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal (n = 67). Fodd bynnag, yn gyntaf, mae'n bwysig amlinellu rhai dadleuon ynglŷn â defnyddio dulliau wedi'u llywio gan seicdreiddiad o fewn methodolegau ansoddol, a sefydlu eu potensial.

## YMCHWIL WEDI'I LLYWIO GAN SEICDREIDDIAD A NODWEDDION GWELEDOL

Yn ôl Hollway a Jefferson (2013), mae cyfweliadau traddodiadol, wedi'u seilio ar y dull cwestiwn ac ateb, yn adroddiadau tenau a sbardunir gan resymeg sy'n hepgor mwy nag y maent yn ei ddatgelu am oddrychau dynol; mae hyn yn awgrymu bod angen symud y tu hwnt i'r fformat cyfyngol hwn i ddeall goddrychedd byw. Yn eu gwaith eu hunain wedi'i lywio gan seicdreiddio, sy'n defnyddio cyfweliadau naratif cysylltiad rhydd, maent yn pwysleisio pwysigrwydd bywgraffiad a defnyddioldeb cwestiynau penagored; a ddeellir trwy fframiau ystyr y cyfranogwyr, nad ydynt wedi'u pennu o flaen llaw gan yr ymchwilydd. Mae'r dull hwn yn arwain at 'sgwrs ddi-dor i raddau helaeth, gyda gwrandäwr astud sy'n ceisio deall yr hyn sy'n cael ei ddweud; gan gynnig cyfleoedd i gael dealltwriaeth graffach o oddrychedd byw'r cyfranogwr' (Mannay 2016, 111).

P'un a weithredir yn seicdreiddiol ai peidio, mae'r gynsail ganolog hon yn debyg i ymchwil weledol, lle y cydnabyddir yn gyffredinol bod delweddau'n gallu ysgogi dealltwriaeth bendant o'r ffyrdd y mae pobl eraill yn profi eu byd (Belin 2005; Fink 2012; Mizen 2005; Pink 2004; Rose 2001). Gellid dadlau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1990), gan gynnwys yr hawl i blant 'fynegi eu barn yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arnynt', hefyd wedi gweithredu fel

rhagflaenydd i ddatblygu dulliau mwy cyfranogol (Payne 2009; James a Prout 1997). Mae plant a phobl ifanc wedi symud o sefyllfa lle maent yn ffynonellau data i un lle maent wedi 'dylunio, cyflawni a dehongli ymchwiliadau ac wedi cael eu hanrhydeddu fel llais beirniadol dilys' (Groundwater-Smith, Dockett, a Bottrell 2015, 2).

Mae hyn wedi ysgogi mwy o ddiddordeb mewn data gweledol, yn aml ochr yn ochr â dulliau ethnograffig mwy traddodiadol (Holland et al. 2010; Ross et al. 2009; Abrahams ac Ingram 2013); ac mae dulliau creadigol yn cael eu hystyried fwyfwy fel 'ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â chwestiynau cynyddol gymhleth mewn gwyddor gymdeithasol' (Kara 2015, 3). Yr hyn sy'n bwysig yw bod y ddelwedd weledol, boed hynny'n ffotograff neu'n lluniad, a'r cyfweliad darganfod cysylltiedig, yn cael eu hystyried yn ffyrdd o symud y tu hwnt i'r dechneg cwestiwn ac ateb. Mae dulliau gweledol hefyd yn archwilio'r ffordd y mae gweld a chael eich gweld yn cael eu ffurfio'n oddrychol ac yn gymdeithasol. Gall y cyfuniad o'r gweledol a'r naratif daflu goleuni newydd ar fyd goddrychol cyfranogwyr; gan wneud yr hyn y credid ei fod yn gyfarwydd, yn rhyfedd ac yn ddiddorol unwaith eto (Mannay 2010). Gellid dadlau, felly, y gall fod yn ddefnyddiol archwilio'r posibilrwydd o gyfuno dulliau wedi'u llywio'n seicdreiddiol ac wedi'u seilio ar nodweddion gweledol.

Mae'n bwysig nodi y bu gwrthwynebiad cryf i ddefnyddio seicdreiddio y tu allan i sefyllfa glinigol yr 'ystafell ymgynghori' (Frosh 2010; Frosh ac Emerson 2005; Midgley 2006), gan honni bod seicdreiddio'n ddeialog annemocrataidd a bod mynd ag arddull ymholi seicdreiddiol y tu allan i'r clinig i'r lleoliad ymchwil yn creu anghydraddoldebau pŵer. Ac eto, gall gwaith wedi'i lywio gan seicdreiddio fod ar ffurf ddemocrateiddiol ac ymddiddanol (Hoggett et al. 2010); ac mae llawer o ymchwil weledol, gan gydnabod cyfyngiadau'r lleoliadaeth hon (Lomax et al. 2011; Luttrell a Chalfen 2010; Mannay 2013a), wedi ceisio datblygu perthnasoedd cyfranogol.

Er hynny, mewn fframiau gweledol cyfranogol gyda phlant ac oedolion, yn aml ceisir gwneud gwahaniaeth clir rhwng gwaith therapiwtig ac ymchwiliad ymchwil gymdeithasol, a'i dechnegau. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig ac yn angenrheidiol; ond gellid dadlau bod ceisio ysgrifennu allan neu guddio unrhyw gysylltiadau rhwng y technegau a ddefnyddiwyd a'u hanes seicdreiddiol yn negyddu cyfleoedd i ailwampio'r dulliau gwerthfawr hyn mewn astudiaethau gweledol. Er enghraifft, gall gwaith Jacques Lacan (1977, 1978) helpu ymchwilwyr gweledol i sylweddoli, wrth weld, ein bod ni'n rhan o ddiwylliant o weledolrwydd, lle mae ein perthynas â phethau a phobl eraill yn cael ei sefydlu.

Yn yr un modd, mae cysyniad dialectegol W.J. T. Mitchell o ddiwylliant gweledol yn cynnig 'nid yn unig ein bod ni'n gweld yn y ffordd a wnawn oherwydd ein bod ni'n fodau cymdeithasol, ond hefyd bod ein trefniadau cymdeithasol ar y ffurf y maent oherwydd ein bod ni'n fodau sy'n gweld (Mitchell 2002, 171). Yn wir, mae gweithred synhwyraidd gweld (a gwneud rhywbeth yn weledol) yn bwysig wrth ffurfio a deall y cymdeithasol. O ran cael ei weld, mae syniad Lacan o 'syllu' yn crisialu ymwybyddiaeth y goddrych o allu cael ei weld. Rydym yn oddrychau sy'n gweld ond hefyd yn wrthrychau y gellir eu gweld, ac yn agored i syllu: 'Rwy'n gweld o un pwynt yn unig, ond yn fy modolaeth edrychir arnaf ar o bob ochr' (Lacan 1978, 72).

Mae 'golygfa'r byd, yn yr ystyr hon, yn ymddangos i ni i gyd fel gweld' (Lacan 1978, 75) oherwydd bod ymuno â diwylliant ac iaith fel goddrychau yn golygu bod angen i ni ddatblygu hunanymwybyddiaeth trwy ddeall ein bod ninnau'n wrthrychau y gellir eu gweld. Mae'r defnydd o 'greu blychau tywod', a drafodir yn y papur hwn, yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad hwn o weld/cael ein gweld ar yr un pryd. Mae'n caniatáu i gyfranogwyr gynrychioli eu hunain fel gwyliwr a'r sawl sy'n cael ei wylio trwy greu golygfa dywod a reolir ganddynt ac sy'n adlewyrchu eu profiad, ond y gwyddant fod eraill yn gallu ei gweld yn syth hefyd. Mae'r dull hwn yn gweithio gyda 'syllu' i

gynhyrchu rhywbeth sy'n cynrychioli'r tensiynau sy'n rhan gynhenid o statws goddrych/gwrthrych y cyfranogwyr.

> Gellir cael goleuni pellach o waith yr athronydd Luce Irigaray (1985), sy'n dadlau trwy orfod cydnabod ein hunain fel gwrthrych er mwyn dod yn oddrych, edrychir arnom bob amser gan yr hyn yr edrychwn arno. Er bod ailffurfiad Irigarary o seicdreiddio Lacanaidd yn canolbwyntio'n benodol ar gynrychioli'r 'benywaidd' mewn ffyrdd cadarnhaol, nad ydynt wedi'u diffinio yn nhermau diffyg, mae ei gwaith yn bwysig oherwydd ei fod yn cyflwyno'r syniad bod modd mynegi gwahaniaeth yn ei rinwedd ei hun. Gellir cymhwyso ei hymdrechion i newid 'ein diwylliant unoddrychol' (Irigaray 2008, 2) y tu hwnt i wahaniaeth rhyweddol. Mae'r gwerthfawrogiad hwn o oddrychedd amryfal, a gwrthod hanfodaeth, yn arbennig o bwysig yn achos grwpiau ymylol.
>
> Nid oes lle yn y papur hwn i ddatblygu dadl hynod ddamcaniaethol rhwng safbwyntiau Lacanaidd ac Irigarayaidd (gweler Staples 2012); fodd bynnag, roedd ein prosiectau'n cynnwys cyfranogwyr a oedd ar y cyrion a cheisiasom ysgogi trafodaethau a oedd wedi'u cuddio a pharchu gwahaniaeth. O ran Irigaray, gellid dadlau bod ein defnydd o 'greu blwch tywod' yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â bylchau, distawrwydd a chymhlethdodau mewn ffyrdd y gallai technegau cwestiwn ac ateb traddodiadol fod wedi bod yn rhy gaeth a 'gwastad' i'w hadlewyrchu. Mae'r 'dechneg creu byd', fel y'i cyflwynir yn yr adrannau canlynol, yn dechneg arfer a ddatblygwyd ym maes seicdreiddio. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r safbwyntiau damcaniaethol a drafodwyd, dadleuwn fod dulliau sy'n deillio ac a ddatblygwyd o dechnegau seicdreiddiol yn gallu cael eu haddasu a'u cymhwyso'n ddefnyddiol mewn ymchwil ansoddol.

METHODOLEG

Archwiliodd y ddau brosiect yn y papur hwn y potensial ar gyfer ymchwil weledol wedi'i llywio gan seicdreiddio mewn perthynas â phroses arloesol ac ymatblyg 'creu blwch tywod'. Defnyddir y term 'creu blwch tywod' i gyfleu unigrywiaeth ein datblygiad o'r dull hwn fel offeryn ar gyfer ymholiad ymchwil ansoddol. Roedd astudiaeth un yn ceisio deall profiad myfyrwyr aeddfed mewn addysg uwch. Roedd astudiaeth dau yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal, i ddeall eu profiadau o addysg a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y ddwy astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd.

> Datblygwyd ein dull 'creu blwch tywod' gan gyfeirio at therapi chwarae â thywod, lle mae cleientiaid yn creu golygfeydd, lluniau neu ddyluniadau haniaethol tri dimensiwn mewn blwch sydd wedi'i lenwi â thywod ac amrywiaeth o ffigurau bychain ffantasi a realistig, a gwrthrychau pob dydd (Weinrib 2004). Fodd bynnag, yn hytrach na defnyddio dull wedi'i lywio gan Jung sy'n boblogaidd mewn gwaith therapiwtig, addaswyd y 'dechneg creu byd' (Lowenfeld 1939) oherwydd dyna oedd yn cyd-fynd orau ag ymagwedd yr awduron at ymholiad gweledol, sy'n canoli'r ffordd y mae cyfranogwyr yn creu ystyr.

Mae darllen delweddau'n awgrymu bod yr ystyr o fewn y ddelwedd weledol a bod dadansoddi'n rhoi cyfle i'r ddelwedd siarad. Fodd bynnag, os yw'r ymchwil eisiau gwybod sut mae pobl yn neilltuo ystyron i luniau, mae astudio delweddau yn unig, y mae eu hystyr, fel data, yn gynhenid, yn ddull cyfeiliornus (Banks 2001; Mannay 2016). I ddeall naratif mewnol y ddelwedd, mae'n rhaid cydnabod lluniwr y ddelwedd; ac, yn aml, yr enw a roddir ar y syniad mai'r agwedd amlycaf wrth ddeall delwedd weledol yw'r hyn y bwriadodd y creawdwr ei ddangos, yw damcaniaeth auteur (Rose 2001;

Mannay 2010). Felly, roedd yn bwysig ystyried sut gallai 'creu blwch tywod' gynnal y ddealltwriaeth hon o ddata gweledol sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwr.

I Lowenfeld (1939), a'r awduron presennol, mae'n bwysig canoli safbwynt goddrychol y cyfranogwyr, yn hytrach na chymhwyso dehongliadau a thybiaethau'r ymchwilwyr eu hunain i'w lluniau. Fel y mynna Hutton (2004), mae gwaith Lowenfeld yn aml wedi cael ei anwybyddu, ei integreiddio'n ddienw a'i gamliwio mewn cymwysiadau diweddarach. Roedd Lowenfeld yn ymwybodol o'r camliwio hyn ac, o ran cymhwyso'r 'dechneg creu byd' i brofion o nodweddion, anian a phersonoliaeth, roedd hi'n awyddus na ddylai gael ei 'chamddeall na'i hystumio pan fydd rhan o'r offer yn cael ei benthyca a'i haddasu at ddiben gwahanol' (Lowenfeld 1950, 325). Wrth addasu'r 'dechneg creu byd' fel dull o gynhyrchu data gweledol, 'creu blwch tywod', nid fel ymyriad therapiwtig seicdreiddiol, mae ystumio'n anochel. Fodd bynnag, yr hyn sy'n hollbwysig yn y ddau gymhwysiad yw damcaniaeth auteur, neu amlygrwydd dehongliadau'r cyfranogwyr o'u creadigaethau gweledol. Felly, gobeithiem y byddai Lowenfeld yn cymeradwyo cynnwys ei gwaith yn y modd hwn.

Roedd Lowenfeld yn mynnu bod y bydoedd a grëir gan blant, gyda ffigurau yn y blwch tywod, yn offeryn alldaflol sy'n caniatáu ar gyfer mynegi meddyliau a theimladau ar lefel symbolaidd. Roedd Lowenfeld yn parchu gwaith Jung ac roedd damcaniaeth Freudaidd yn dylanwadu arni. Fodd bynnag, roedd Lowenfeld o'r farn na ddylai'r therapydd geisio dehongli symbolaeth y byd ond, yn hytrach, aros i'r plentyn amlygu'r ystyron, 'i gydnabod yr ystyron lluosog y gallai'r byd eu cynnwys' (Hutton 2004, 607). Yn y modd hwn, daw'r ffigurau yn y blwch tywod yn brif gyfrwng ar gyfer cyfathrebu mewnol a rhyngbersonol, lle mae 'pob ffigur yn cynrychioli ystyr bersonol ac unigryw i unigolion' (Sangganjanavanich a Magnuson 2011, 266).

Mae pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod yr unigolyn yn darganfod ei ystyr ei hun 'yn cyd-fynd ag egwyddorion damcaniaeth auteur ac yn cynrychioli safbwynt democrateiddiol ac ymddiddanol, y cyhuddwyd dulliau eraill wedi'u llywio gan seicdreiddio o'i atal' (Mannay 2016, 69). Yn unol â hynny, dadansoddwyd y data gan ddefnyddio dull casgliadol a diddwythol, gan greu categorïau thematig trosfwaol a themâu dadansoddol a ddaeth i'r amlwg o godio a chategorïau ar draws y setiau data. Roedd y deunyddiau gweledol, y tynnwyd lluniau ohonynt ar yr adeg cynhyrchu data, yn gweithredu fel offer darganfod, yn hytrach na gwrthrychau dadansoddi fel y cyfryw, ond fe'u hystyriwyd yn y dadansoddiad i egluro, cwestiynu ac ymestyn y trawsgrifiadau cyfweliad cysylltiedig.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod y weithred o greu 'byd' yn greadigol yn darparu trosiadau gweledol a geiriol sy'n gwella hunanddealltwriaeth unigolion, sy'n cyd-fynd â photensial y gweledol mewn perthynas ag 'ymladd yn erbyn cynefindra' (Delamont ac Atkinson 1995). Mae cysyniad datgynefino, a gyflwynwyd gan y ffurfiolwr Rwsiaidd Shklovsky, yn dadlau bod ein canfyddiadau o sefyllfaoedd cyfarwydd, pob dydd, yn mynd yn hen dros amser, ond bod celf yn gallu mynd i'r afael â'r awtomeiddio hyn trwy ein gorfodi i arafu ein canfyddiad, ymdroi a sylwi (Gurevitch 1998). Mae'r potensial hwn i wneud y cyfarwydd yn rhyfedd, i'r ymchwilydd a'r hyn sy'n cael ei ymchwilio, wedi cael ei archwilio mewn gwaith gweledol blaenorol (Kaomea 2003; Mannay 2010; Richardson 2015). Mae'r adrannau canlynol yn archwilio sut gellir ysgogi datgynefino a damcaniaeth auteur trwy 'greu blwch tywod', i alluogi dealltwriaeth graffach o brofiadau goddrychol y cyfranogwr.

## ASTUDIAETH UN

Prif nod astudiaeth un oedd cael safbwyntiau goddrychol myfyrwyr aeddfed a oedd naill ai wedi cwblhau blwyddyn gyntaf eu gradd; neu wedi dilyn rhaglen i gael mynediad at addysg uwch ac wedi cael eu derbyn i brifysgol yn y flwyddyn academaidd ganlynol[1]. Datblygwyd y prosiect yn rhannol i ymdrin â chanfyddiadau astudiaethau cynharach (Currie, Harris, a Thiele 2000; Edwards 1993; Garland 1994; Mannay a Morgan 2013) a amlygodd yr anawsterau a brofir gan famau aeddfed, dosbarth gweithio, sydd ar y cyrion, a oedd wedi dychwelyd i addysg uwch.

Cynlluniwyd yr astudiaeth[2] yn unol â'r gynsail ymchwil weithredu fel 'proses o ddatrys problemau'n fyfyriol ar lefel ysgol', sy'n caniatáu i ymarferwyr amlygu pwnc i'w astudio i bennu os a sut y gellir gweithredu newidiadau i wella prosesau, gweithdrefnau a rhaglenni (Howard ac Eckhardt 2005, 32). Yn yr achos hwn, rhagwelwyd y gallai adroddiadau'r cyfranogwyr ffurfio sylfaen fyfyriol, a allai lywio a gwella'r ddarpariaeth o bosibl.

Roedd naw myfyriwr aeddfed a oedd wedi dilyn neu gofrestru ar gyfer rhaglen gradd gwyddor gymdeithasol mewn prifysgol yng Nghymru, y DU, wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth. Rhannwyd y myfyrwyr yn dri grŵp, sef cyfranogwyr a oedd wedi cwblhau eu rhaglen gradd israddedig (n = 3), cyfranogwyr a oedd wedi cwblhau eu blwyddyn gyntaf (n = 3) a chyfranogwyr y disgwyliwyd iddynt gofrestru yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol (n = 3). O ran y ddau grŵp cyntaf o gyfranogwyr, roedd y golygfeydd a grëwyd yn cynrychioli eu profiad o'u blwyddyn gyntaf fel myfyriwr israddedig. Roedd y trydydd grŵp yn canolbwyntio ar eu disgwyliadau, eu gobeithion a'u hofnau ynglŷn â dechrau ar daith addysg uwch. Roedd y ddau ymchwilydd wedi dilyn eu graddau fel myfyrwyr aeddfed. Felly, roedd yn bwysig gochel rhag cynefindra a rhagdybio ynghylch profiadau a rennir a allai fod yn gamarweiniol.

## ASTUDIAETH DAU

Roedd yr ail astudiaeth yn rhan o brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[3], a archwiliodd gyrhaeddiad addysgol, profiadau, dyheadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc yng Nghymru a chanddynt brofiad o ofal (n = 67) (gweler Mannay et al. 2015; 2017). Cynigiwyd 'creu blwch tywod' fel opsiwn ochr yn ochr â gweithgareddau eraill i gyfranogwyr 7-16 oed (n = 39) a oedd 'mewn gofal' ar y pryd neu wedi bod 'mewn gofal' am dri mis neu fwy. Roedd y cyfranogwyr naill ai wedi creu golygfeydd a oedd yn cynrychioli sut beth oedd yr ysgol, neu wedi canolbwyntio ar eu dyfodol a'r hyn yr oeddent eisiau ei wneud, ei fod, neu ei gyflawni.

Wrth i ymrwymiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymchwil amdanynt ddod yn fwy cyffredin, bu cynnydd ar yr un pryd yn amrywiaeth y technegau a ddefnyddir i geisio meithrin y cyfranogiad hwnnw (O'Kane 2008; Kim 2015). Er nad ydynt yn gwarantu cyfranogiad llawn a gweithgar, mae dulliau gweledol a deunyddiau'n gallu cynhyrchu data mwy cydweithredol a arweinir gan gyfranogwyr (Mannay 2013a); a cheisiodd ein dull ni alluogi'r cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr ymchwil mewn ffordd ystyrlon.

Dewiswyd 'creu blwch tywod' hefyd i wrthsefyll ail-greu'r cyfweliad gwaith cymdeithasol. Mae'r prosesau gofal cymdeithasol a chyfreithiol ffurfiol sy'n ymwneud â gosod plentyn neu berson ifanc mewn gofal cyhoeddus yn golygu y byddai'r holl gyfranogwyr wedi profi rhyw fath o gysylltiad gwaith cymdeithasol, a allai fod wedi llywio penderfyniadau sylfaenol am eu bywydau, gan gynnwys eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd biolegol. Er mwyn cael adroddiadau goddrychol, dewiswyd cyfweliadau lled-strwythuredig unigol i ddechrau, yn unol ag astudiaethau blaenorol (Jackson a Höjer 2013). Fodd bynnag, roedd hyn yn adlewyrchu arferion gwaith cymdeithasol yn rhannol ac yn cynyddu'r risg y byddai'r cyfranogwyr yn cael eu hatal rhag cyfleu eu profiad addysgol, rhag ofn y byddai'r hyn a ddywedent yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniad am eu bywyd.

Roedd galluogi'r cyfranogwyr i arwain y gweithgarwch ymchwil drwy greu golygfa dywod yn cyferbynnu â chyfweliad gwaith cymdeithasol, na fyddent wedi cael unrhyw ddewis ynghylch sut i gymryd rhan ynddo na ph'un a oeddent eisiau cymryd rhan ynddo. Er na fyddai unrhyw dechneg yn gwarantu adroddiadau a gyfeirir gan gyfranogwyr, mae 'creu blwch tywod' yn gosod pwysigrwydd canolog ar y cyfranogwr fel prif greawdwr byd bychan. Felly, roeddent wedi cyfrannu tuag at helpu plant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal i ymgysylltu â'r ymchwilwyr ar eu telerau eu hunain, a darparu man lle y gallent fynegi eu profiadau a dychmygu eu dyfodol.

## CYNHYRCHU DATA

Defnyddiodd astudiaeth un flwch tywod pren, a defnyddiodd astudiaeth dau flychau plastig, cludadwy, a oedd yn fwy addas i'r prosiect. Mae Lowenfeld (1950) yn awgrymu y dylai'r casgliad o wrthrychau gynrychioli'r themâu cyffredin a geir mewn diwylliannau penodol. Nid yw'n diffinio fformiwla gaeth; yn hytrach, mae'n dosbarthu themâu a ddylai ymddangos mewn unrhyw gasgliad: sef pobl, tai, coed, ffensys, anifeiliaid, trafnidiaeth, arwyddion stryd ac amrywiol (fel ffyn, cerrig, rhannau toredig o wrthrychau). Mae'r patrwm hwn o themâu yn gyson â chymwysiadau mwy diweddar (Hutton 2004; Sangganjanavanich a Magnuson 2011).

Gwnaethom gymhwyso'r un themâu eang a chynnig hyd at 200 o wrthrychau ar wahân, rhai mewn lluosrifau o ddau neu fwy.

Fel y dangosir yn Ffigur 1, roedd tirweddau, traffig, pobl ac anifeiliaid yn ffigurau o setiau chwarae yn bennaf, tra bod y categori amrywiol yn cynnwys eitemau megis concyrs, cregyn, darnau arian, allweddi, clipiau papurau a gemwaith.



FFIGUR 1.Detholiad o wrthrychau.




FFIGUR 2: Golygfa dywod plentyn a gymerodd ran.

Hwyluswyd cynhyrchu data ar sail un i un. Gofynnwyd i fyfyrwyr aeddfed greu golygfa dywod i adlewyrchu eu canfyddiadau o astudio israddedig, ac roedd plant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal wedi creu eu profiad o addysg neu eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Yn ystod y gwaith maes, gadawodd yr ymchwilydd yr ystafell neu symudodd i ran arall o'r ystafell a darllen llyfr tra bod yr oedolion a gymerodd ran yn gweithio'n annibynnol. Cynhyrchwyd y data gweledol gyda phlant a phobl ifanc ym mhresenoldeb yr ymchwilydd, ond roedd y cysylltiad yn anffurfiol. Roedd yr ymchwilwyr wedi sgwrsio â'r plant am bethau eraill, bwrw ymlaen â thasgau eraill neu gwblhau golygfa dywod eu hunain. Lle y crëwyd blychau tywod gan yr ymchwilwyr a'r cyfranogwyr, rhoddwyd cyfle i'r plant a'r bobl ifanc 'gyfweld' yr ymchwilwyr a gofyn iddynt esbonio eu golygfa dywod i ymestyn natur gyfranogol y gweithgarwch.

Roedd ymatebion y cyfranogwyr yn gymhleth, gan ymestyn ar draws y categorïau thematig, fel y dangosir yn Ffigur 2 (plentyn a gymerodd ran). Yn y ddau brosiect, nodweddwyd y broses ddarganfod gan arddull sgyrsiol lle'r oedd yr ymchwilydd yn ymgymryd â rôl gwrandäwr astud a oedd yn ceisio deall beth oedd yn cael ei ddweud, fel y daeth y patrwm seicdreiddiol yn berthnasol ac yn ymarferol yng nghyd-destun ymchwil addysgol ansoddol.

## WEDI'I YSGRIFENNU YN Y TYWOD

Bu'r dull yn ddefnyddiol wrth ymgysylltu â chyfranogwyr ar lefel affeithiol, a defnyddiodd y broses cynhyrchu data deimladrwydd seicdreiddiol; a oedd wedi'i lywio'n seicdreiddiol yn hytrach nag yn seicdreiddiol ei hun. Roedd yr holl fyfyrwyr aeddfed (n = 9) yn agored i broses greadigol 'creu blwch tywod', heblaw am un a ddywedodd y byddai'n well ganddo symud i fformat cyfweliad. Rhoddwyd dewis i'r cyfranogwyr iau yn astudiaeth dau (n = 39) ynghylch p'un a oeddent eisiau creu golygfa

dywod, ac achubodd rai ar y cyfle (n = 19). Dewisodd eraill gyfweliad traddodiadol (n = 14) neu'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd sticeri emosiwn a ddilynwyd gan gyfweliad (n = 6).

Fe'n hysgogwyd gan fyfyrdodau ar astudiaeth un i gynnig dewis o weithgareddau yn astudiaeth dau, oherwydd bod angen i ymchwilwyr ystyried na fydd rhai dulliau'n briodol i'w defnyddio gyda rhai cyfranogwyr o reidrwydd, neu efallai na fyddant yn gweddu i'w dewisiadau unigol (gweler Johnson, Pfister, a Vindrola-Padros 2012). Fodd bynnag, gellid dadlau y bu'r gweithgareddau cyn cyfweliad yn ddefnyddiol wrth newid deinameg y cyfweliad, oherwydd gallai'r cyfranogwyr arwain y trafodaethau o amgylch eu cynyrchiadau gweledol a chyfeirio'r cyfweliad. Roedd y model a gyfeirir gan gyfranogwyr hefyd yn cyfyngu'r duedd i wybodaeth a phrofiadau'r ymchwilwyr ddylanwadu ar adroddiadau'r cyfranogwyr; 'ymladd yn erbyn cynefindra' (Delamont ac Atkinson 1995), fel y trafodwyd mewn astudiaethau gweledol blaenorol (Mannay 2010; Richardson 2015).

Efallai bydd delweddau a naratifau'n perthyn i fyd o bethau y gwyddom amdanynt yn helaeth ac yn gonfensiynol, ond gall y cysylltiadau rhyngddynt gael eu cymylu gan ein goddrychedd ac aros ynghudd wrth i ni ddarllen. Mae delweddau'n ysgogi atgofion, myfyrdodau a theimladau, ond mae dehongli'n dibynnu ar ein gwybodaeth ddiwylliannol gronedig ac mae profiad yn gosod cyfres o fframiau sydd ar gael i gyfeirio atynt. Mae angen fframio a chysylltu ein dealltwriaeth fel ymadroddion, trosiadau neu gyfatebiaethau oherwydd 'cyn gynted ag y gwelir delwedd, rhaid iddi ymdebygu i rywbeth: mae'n ymddangos bod cyfatebiaeth yn rhan annatod o'r ddynoliaeth' (Barthes, a ddyfynnwyd yn Spencer 2011, 19).

Fel y mae Steedman (1986, 137) yn dadlau, cydnabyddir yn gyffredinol mewn adroddiadau llenyddol ar drosiadau 'bod y ddyfais gysylltiol y mae'r trosiad yn troi arni, hynny yw, y canfyddiad o debygrwydd gwirioneddol rhwng endidau yn y byd go iawn, yn aml yn ddim mwy na chydnabyddiaeth o gysylltiadau digwyddiadol sy'n benodol iawn yn ddiwylliannol: rydym ni'n gyfarwydd â chymharu rhai pethau â phethau eraill penodol, ac mae trosiad yn aml yn gweithio trwy'r cysylltiad hwn, yn hytrach na thebygrwydd canfyddedig'.

Mae darllen llenyddiaeth a gwaith celf o ddiwylliannau eraill yn aml yn datgelu cysylltiadau ein system drosiadol ein hunain. Lle nad oes gweledigaeth sy'n caniatáu ar gyfer deall y cysylltiadau newydd hyn, ni ellir adrodd stori (Steedman 1986, 138); neu os llunnir stori, gallai fod yn un sydd heb berthynas â'r ystyr a fwriadwyd gan y creawdwr gwreiddiol. Yn ôl Lacan (1978), mae'r hyn a welir yn bodoli ger ein bron a bydd yn bodoli ar ôl i ni roi'r gorau i'w weld; nid yw'r gweledol yn cael ei ffurfio'n gymdeithasol yn unig. Er hynny, dadleuwn fod y gynulleidfa'n creu eu hystyron eu hunain o ddelwedd ni waeth p'un a gredwn ein bod ni'n adlewyrchu neu'n cael ein hadlewyrchu gan y maes gweledol. Felly, roedd yn bwysig trafod yr ystyron a roddodd y cyfranogwyr i'w golygfeydd tywod, yn hytrach na phriodoli ystyr yn unig.

O ganlyniad, dilynwyd y broses cynhyrchu data gan gyfweliadau darganfod gwybodaeth i gydnabod natur amlystyr y golygfeydd tywod. Roedd yr holl ddata gweledol yn amlystyr oherwydd yr ystyron amwys a lluosog y gellid eu cynhyrchu. Fel y mae Reavey (2011) yn dadlau, 'ni all dehongliad delwedd fod yn sefydlog bob amser' ac roedd yn bwysig nad oedd ein dehongliadau ein hunain yn fframio a chysylltu'r data mewn ffordd a oedd yn distewi'r ystyr a fwriadwyd gan y cyfranogwyr. Yn unol â hynny, roedd y cyfranogwyr yn gallu esbonio'r cyfatebiaethau a'r trosiadau yn eu golygfeydd tywod gan ddefnyddio eu sgemâu digwyddiadol goddrychol eu hunain. Felly, prif ddiben y cyfweliadau oedd deall yr hyn yr oedd y data'n ei gyfleu am fywydau'r cyfranogwyr, yn hytrach na deall y data a gynhyrchwyd yn unig (Radley 2011).

Mae Lowenfeld (1979, 329) yn trafod y ffordd y daw'r plentyn i'w 'ganfod ei hun'[sic] yn raddol trwy gyfrwng y 'dechneg creu byd'. Yn ystod y gweithgaredd 'creu blwch tywod' gyda myfyrwyr aeddfed, gwelwyd llawer o fyfyrio a mynegodd y cyfranogwyr hefyd sut oeddent yn 'datgynefino' (Gurevitch 1998); mewn perthynas ag ailfeddwl am eu profiadau addysgol a'u perthnasoedd



rhyngbersonol. Gan gyd-fynd â phrofiad Lowenfeld (1959), roedd trosiadau a grëwyd yn yr olygfa dywod hefyd yn gwella dealltwriaeth y cyfranogwyr o'r hunan gan arwain, yn yr un modd ag mewn gwaith gweledol blaenorol, at ddarganfyddiadau newydd o'r hunan (Mannay 2010; Thompson a Holland 2005). Yn hollbwysig, yn hytrach nag ysgogi ymatebion rhesymegol i gwestiynau dilynol, sy'n gynhenid i gyfweld traddodiadol (Hollway a Jefferson 2013), roedd 'creu blwch tywod' yn ennyn ymgysylltiad ymatblyg â byd emosiwn; lle'r oedd ynysu'n thema ganolog i fyfyrwyr aeddfed, fel y dangosir yn Ffigur 3.

Yn Ffigur 3, defnyddiodd y cyfranogwr ffigurau realistig i gynrychioli tebygrwydd goddrychol myfyrwyr traddodiadol, mewn cyferbyniad â'i sefyllfa wahanol hi, fel y dangosir yn y dyfyniad canlynol; 'a byddai tua dau gant o'r bobl debyg iawn hyn yn eistedd yno, a fi ...y deinosor oherwydd fy mod i'n llawer hŷn ac yna'r holl bobl debyg iawn hyn... Rwy'n credu yr oeddwn i'n anweledig, dyna'i gyd. 'Dwi ddim yn credu yr oedden nhw i gyd yn syllu arna' i'n ddig gan feddwl 'pam mae hi yma', yr un od. Roedd yn ymwneud mwy â'r ffaith eu bod nhw i gyd yr un peth ac yn ffrindiau ac roeddwn i'n rhyw fath o endid rhyfedd yn y ddarlithfa.'

FFIGUR 3. Rydych chi'n teimlo'n eithaf ynysig

Yr hyn sy’n bwysig yw bod yr olygfa dywod a’r cyfweliad darganfod gwybodaeth yn ennyn dealltwriaeth o'r trosiadau hyn. Defnyddiodd y myfyriwr y deinosor fel trosiad gweledol a ffigur ymadrodd trosiadol, i ddangos sut mae hi’n gweld ei statws fel myfyriwr a’i phrofiadau o’r ddarlithfa. Yn aml, mae trosiadau’n cyflawni swyddogaeth drosgynnol-ddeongliadol (White 2015), ac mae’r deinosor yn alegori gyffredin ar gyfer henaint neu golli gafael ar y byd modern. Roedd thema anghysonder yn amlwg hefyd yn nelweddaeth myfyriwr aeddfed arall ac yn yr hyn a ddywedodd yn ei gyfweliad mewn perthynas â Ffigur 4;

> Rydw i ar ris cyntaf yr ysgol yma, ac mae’r arwydd ‘Dim mynediad’ yma, yn cuddio’r ffordd, oherwydd ’dydw i ddim yn gwybod y ffordd... Rwy’n teimlo fel petawn i’n dringo’r ysgol yn ddall. Ac mae’r dyn bygythiol yn cyfleu’r ffaith ’mod i bob amser yn teimlo fel petai rhywun yn mynd i ddarganfod na ddylwn i fod yma. A dweud wrtha i am hel fy mhac... mae’r dynion eraill yn cynrychioli’r bobl a ddylai fod yma mewn gwirionedd, gyda’u siwtiau a’u trowsus destlus.



FFIGUR 4. Dim Mynediad.

Mae’r myfyriwr aeddfed wedi defnyddio gwrthrychau i gyfleu ei phryderon ynghylch mynediad i’r byd academaidd israddedig, ac aelodaeth ohono. Elfen ganolog yr olygfa yw ysgol raff, ac mae’r cyfranogwr yn egluro ei bod hi 'ar ris cyntaf yr ysgol'. Mae gosod yr ysgol yn y canol yn ddiddorol oherwydd defnyddir y term yn drosiadol yn aml mewn trafodaethau ynghylch symudedd cymdeithasol, lle mae dringo’r ysgol yn cyfateb i wella statws mewn cymdeithas (Walkerdine 1998). Mae grisiau cychwynnol yr ysgol yn cynrychioli blwyddyn gyntaf y cyfranogwr o astudio israddedig; fodd bynnag, er ei bod hi ar yr ysgol, mae rhwystrau sylweddol rhag symud i fyny wedi’u gosod yn union o flaen y ffigur a ddewiswyd fel ei rhithffurf.

Mae'r cyfranogwr yn esbonio bod yr arwydd ‘Dim mynediad’ yma, yn cuddio’r ffordd’ ac mae hyn yn amlwg o edrych ar yr olygfa dywod; fodd bynnag, ni all yr olygfa ei hun gyfleu dealltwriaeth oddrychol y cyfranogwr o wrthod mynediad. Mae'r cyfweliad yn caniatáu i’r cyfranogwr drafod sut mae ei diffyg gwybodaeth yn gweithredu fel rhwystr, gan beri iddi deimlo fel petai’n ‘dringo’r ysgol

yn ddall’. Mae’r dyn bygythiol yn cynrychioli ofn mewnol ynghylch peidio â pherthyn, ond hefyd presenoldeb allanol a allai fod yn academydd, gweinyddwr neu fyfyriwr arall.

Defnyddir y dyn bygythiol yn ffigurol i gyfleu pryderon y myfyriwr ac mae hi’n egluro ei bod hi, ‘bob amser yn teimlo fel petai rhywun yn mynd i ddarganfod na ddylwn i fod yma'. Mae lleoliad amserol ‘bob amser’ yn awgrymu bod y teimlad hwn wedi parhau drwy gydol taith ddysgu’r cyfranogwr, ac mae lleoliad y ‘dyn bygythiol’ yn creu cyfwng bygythiol. Mae'r 'dyn bygythiol' yn dalach ac yn fwy llydan na rhithffurf y myfyriwr, gan gyfleu ymdeimlad o oruchafiaeth gyda’i gyhyrau deuben mawr a’i daldra, wrth iddo blygu dros rithffurf y cyfranogwr. Mae’r cyfuniad o esboniad y cyfranogwr a’r trosiadau a gyflëir yn yr olygfa dywod yn cadarnhau amlygrwydd y rhwystrau seicolegol hyn.

Gwaethygir natur broblemus addysg y myfyriwr oherwydd nid yw'n daith unigol, breifat yn unig; ond taith â chynulleidfa. Wrth esbonio’r olygfa dywod, mae’r cyfranogwr yn dweud bod y ‘dynion eraill yn cynrychioli’r bobl a ddylai fod yma mewn gwirionedd’. Mae'r ffigurau hyn ar ymylon yr olygfa, ond maen nhw’n gwylio o’r ochr ac mae eu llygaid yn syllu ar rithffurf y cyfranogwr. Yn ogystal, yn yr un modd â’r cathod unfath yn Ffigur 3, mae’r gynulleidfa yr un fath â’i gilydd ‘gyda’u siwtiau a’u trowsus destlus’; ac mae’r unffurfiaeth hon yn cadarnhau eu haelodaeth yn y lle hwn. Yn unol â hynny, caiff y cyfranogwr ei hynysu trwy ei diffyg gwybodaeth am addysg uwch, ei theimladau o fod ‘ar y cyrion’, a phryder ynghylch y rhai sy’n ymddangos fel petaent yn gweddu i amgylchfyd y brifysgol. Yr hyn sy’n bwysig yw y bydd y ‘bobl a ddylai fod yma mewn gwirionedd’ yn gallu gweld yn syth ei bod hi allan o’i chynefin, sy’n cyd-fynd â’r gynsail ein bod ni bob amser yn cael ein gweld gan yr hyn rydym ni’n edrych arno (Irigarary 1985).

Mae ‘creu blwch tywod’ hefyd yn fuddiol oherwydd bod golygfeydd yn gallu cael eu creu a’u hail-greu. Nid yw llawer o ddulliau gweledol yn elwa o’r hylifedd hwn oherwydd deuant yn sefydlog wrth i ddarnau o ludwaith gael eu gludio, wrth i fotwm y camera gael ei wasgu neu wrth i inc ddod i gysylltiad â phapur. Gellid dadlau bod Lego Serious Play yn cynnig cyfleoedd i annog mathau o fynegi a dadansoddi trwy brofiad sy’n gallu helpu cyfranogwyr i weld sefyllfaoedd cyfarwydd mewn ffordd newydd (Gauntlet a Holzwarth 2006, Hinthorne a Schneider 2012). Fodd bynnag, er bod brics Lego yn gallu cael eu hadeiladu, y gynsail yw ein bod ni bob amser yn cael ein gweld gan yr hyn rydym ni’n edrych arno (Irigarary 1985).

Roedd teimladau ac emosiynau’n rhan gynhenid o’r golygfeydd tywod a’r cyfweliadau cysylltiedig yn astudiaeth dau hefyd. Er enghraifft, roedd awydd i feithrin diogelwch iddyn nhw eu hunain ac eraill yn amlwg yn yr hyn a gyflëwyd gan nifer o’r cyfranogwyr, fel y dangosir yn Ffigur 5.



FFIGUR 5.   Golygfa Frwydr.

Roedd ‘creu blwch tywod’ yn caniatáu i blant a phobl ifanc greu cynrychiolaethau gweledol cymhleth o’u dyheadau ar gyfer y dyfodol fel yr olygfa frwydr hon sy’n defnyddio milwyr ac anifeiliaid gwyllt. Roedd yr olygfa hon yn cynrychioli awydd y cyfranogwr i ymuno â’r fyddin ‘oherwydd bod rhai rhyfeloedd yn mynd ymlaen ac mae pobl yn ceisio ymladd dros eu gwlad i’w chadw... Rydw i eisiau eu helpu nhw a’u cadw nhw i fynd’. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gwneud swydd lle gallent gadw pobl yn ddiogel. Yn y fyddin, gallent 'helpu pawb... os oedd daeargryn', fel arall, pe byddent yn ymuno â’r frigâd dân, gallent 'achub rhai pobl a bod yn arwr go iawn'.

Dangosodd yr olygfa frwydr ddealltwriaeth o’r ffaith nad oedd diogelwch yn cael ei roi’n awtomatig o reidrwydd; yn hytrach, ei fod yn rhywbeth a oedd yn golygu rhyw fath o negodi, ymdrech neu frwydr. Trosglwyddodd y thema hon i drafodaeth y cyfranogwr ar ei gyflogaeth a sut byddai ei gyflog yn gysylltiedig â diogelwch y teulu; 'Ni fyddai ots gen i unrhyw beth a fyddai’n caniatáu i mi wneud llawer o arian, rhag ofn y bydd gen i deulu fel y gallwn ni ofalu amdanyn nhw a’u cadw’n ddiogel'. Mae'r materion hyn yn aml yn ganolog i brofiadau plant a phobl ifanc o dderbyn gofal, a nodweddir gan ansefydlogrwydd, gwahanu oddi wrth eu teuluoedd a symud o leoliad i leoliad. Roedd creu’r olygfa dywod, a’r gweithgaredd efelychu lle y creodd yr ymchwilydd gynrychiolaeth o’i ddyheadau ei hun i’w rhannu, ynghyd â’r sgwrs ddilynol, wedi rhoi cyfle i drafod y materion sensitif hyn, a symudodd y tu hwnt i’r hyn a ddisgwylir mewn cyfweliad gweithiwr cymdeithasol traddodiadol.

Nid yw'r ffigurau eu hunain yn hyblyg nac yn agored i’w newid yn ffisegol, er y gallant fagu ystyron lluosog ac anghyfyngedig yn drosiadol. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw’r ffigur ei hun yn hydrin, mae rhywfaint o greadigrwydd yn bosibl wrth i’r cyfranogwr ddefnyddio ei ddychymyg. Er enghraifft, mewn gweithdy[4] a gynhaliwyd gyda’r un offer, gwnaeth cyfranogwr ffrog i un o’r ffigurau gan ddefnyddio nodyn gludiog. Roedd y ffigurau hefyd yn cael eu gosod a’u symud o gwmpas neu eu symud ymaith, ac roedd strwythurau’n cael eu hadeiladu a’u dinistrio cyn ac yn ystod y cyfweliadau. Yn aml, roedd y blychau tywod wedi’u haddurno ag olion darnau eraill a fewnosodwyd ac a symudwyd ymaith yn ddiweddarach; ac yn un o’r cyfweliadau gyda myfyriwr aeddfed, creodd y cyfranogwr olygfa frwydr fyw gyda draig ar arglawdd, a godwyd gan ddefnyddio’r tywod, a nodweddion creigiau a ffens. Roedd perfformiadau tebyg yn amlwg yn y cyfweliadau â phlant a phobl ifanc, wrth i un cyfranogwr greu drama gymhleth gyda’r ffigurau.

Mae’r tywod ei hun yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd creadigol i’r cyfranogwyr greu cynrychiolaeth allanol o’u profiadau, eu gobeithion, eu hofnau a’u ffantasïau mewnol. Yn ogystal â chodi’r tywod, fel a wnaed i greu arglawdd y ddraig, defnyddiwyd y tywod hefyd i guddio eitemau a’u claddu’n rhannol. Roedd llawer o olygfeydd tywod yn cynnwys allweddi, gemwaith a thrysorau symbolaidd eraill na ellid prin eu gweld weithiau; roedd y rhain yn cynrychioli’r hyn a gollwyd, yr hyn a oedd allan o gyrraedd neu’r nod a oedd i’w gyflawni. Yn Ffigur 6, claddodd y cyfranogwr y ffigur sy’n ei chynrychioli ei hun fel myfyriwr aeddfed, gan esbonio;

‘Fe’i claddais yn rhannol oherwydd ei bod hi mewn traeth gwyllt, oherwydd bod gormod i un person i’w wneud... nid yw’n gallu gwneud popeth, ond mae’n rhaid iddi wneud popeth, felly mae’n rhaid iddi gadw ei chorff allan ac mae hi’n chwifio ei breichiau’n wyllt, ond yn methu, felly rydych chi wedi hanner suddo drwy’r amser ond yn ceisio cadw i fynd’



FFIGUR 6. Tywod gwyllt.

Nid yw’n rhwydd claddu gwrthrychau wrth ddefnyddio technegau gweledol eraill; ac yn yr achos hwn, arweiniodd y ffaith bod y cyfranogwr wedi claddu ei rhithffurf yn rhannol at drafod beth mae’n ei olygu i gael eich claddu, a’i phrofiad goddrychol o sut oedd yn mynd i’r afael â’r ymdrech barhaus hon i beidio â suddo’n llwyr. O ganlyniad, roedd ‘creu blwch tywod’ wedi rhoi cyfle i ddelweddu a mynegi teimladau o ddiymadferthedd ac ofn. Yn ogystal â chodi a chladdu gwrthrychau, roedd y sylfaen dywod hefyd yn ddefnyddiol wrth greu ffiniau ffisegol, fel y dangosir yn Ffigur 7.



FFIGUR 7. Dyfodol da, dyfodol drwg.

Diffiniodd y cyfranogwr ddyfodol da a drwg, gan ddefnyddio’r tywod i ffurfio rhaniad eglur rhwng ei ddau ddyfodol posibl. Roedd anifeiliaid anwes yn amlwg yn bwysig i lawer o’r plant a’r bobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal wrth ddisgrifio eu profiadau presennol a’u bywydau yn y dyfodol. Mae anifeiliaid anwes yn arwyddocaol, oherwydd er eu bod yn cyflawni rôl weithredol wrth feithrin lles (Briheim-Crookall 2016), maen nhw’n aml yn cael eu gadael ar ôl yn ystod y broses o wahanu oddi wrth gartref y teulu ac, yn ddiweddarach, wrth symud i wahanol ofalwyr maeth.

Yma, mae'r cyfranogwr wedi rhoi nadroedd ar yr ochr chwith i gynrychioli'r anifeiliaid anwes arswydus a fyddai ganddi mewn dyfodol gwael 'Byddai rhai arswydus, 'dwi ddim yn hoffi nadroedd, felly mae hynny'n golygu drwg... maen nhw'n anifeiliaid anwes milain, a 'dydw i ddim yn hoffi mileindra. Hefyd, defnyddiodd y cyfranogwr y tywod i gladdu neidr felen yn rhannol, i bwysleisio pa mor llechwraidd ydynt. Roedd y gallu i ddiffinio a chladdu gwrthrychau'n taflu goleuni ar sut mae plant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal yn delweddu eu dyfodol o fewn naratifau gwrthdrawiadol o'r cadarnhaol a'r negyddol, sy'n  adlewyrchu eu profiadau pob dydd yn aml.

MYFYRIO AR 'GREU BLWCH TYWOD'

Mae 'creu blwch tywod' yn cynnig cyfleoedd i gyfranogwyr ddefnyddio eu creadigrwydd a'u dychymyg i greu bydoedd sy'n ystyrlon ac yn berthnasol iddynt hwy eu hunain; y gellir eu cyfleu, yn drosiadol a thrwy'r broses darganfod gwybodaeth, i eraill. Yn unol â hynny, wrth geisio creu pellter rhwng ymchwil ansoddol a phopeth sy'n gysylltiedig â'r seicdreiddiol a'r therapiwtig, gallem fod yn cwtogi ar yr amrywiaeth o ddulliau gweledol sydd ar gael i ymchwilwyr. Felly, oni ddylem fod yn defnyddio technegau seicdreiddio y tu allan i sefyllfa glinigol yr 'ystafell ymgynghori' (Frosh 2010)?

Mae un o'r gwrthwynebiadau allweddol yn ymwneud â chyflwyno cysylltiadau grym anghyfartal. Fodd bynnag, wrth addasu'r 'dechneg creu byd' i ddull o gynhyrchu data, sef 'creu blwch tywod', gellir dadlau dros bosibiliadau cyfranogol yr ymagwedd. Er hynny, o ran natur therapiwtig gysylltiedig yr ymchwiliad ansoddol hwn, gallwn, ac rydym, yn cwestiynu'r foeseg sy'n ymwneud ag ymgysylltu â chyfranogwyr ar lefel affeithiol. Trafododd myfyrwyr aeddfed deimladau yn ymwneud ag ynysu a chael eu gorlethu gan fywyd prifysgol; a chyfleodd rhai cyfranogwyr emosiynau a oedd yn gysylltiedig â chofio atgofion poenus trwy eu hiaith, eu goruwchiaith ac, mewn rhai achosion, trwy eu dagrau. Yna, gellid beirniadu'r astudiaeth am ddefnyddio techneg sy'n cael ei llywio'n seicdreiddiol yn absenoldeb therapydd hyfforddedig.

Ac eto, fel y mae Rock (2007) yn dadlau, mae angen 'aros yn agored i'r nodweddion na ellir eu rhestru cyn yr astudiaeth', ac mewn gwaith blaenorol a ddefnyddiodd ddulliau gweledol (Mannay 2013b), roedd natur agored y tasgau'n ysgogi elfen ymwthiol o drawma; a thrafferthion teuluol a oedd yn ganolog i'r ffordd yr oedd y cyfranogwyr yn ffurfio eu hunaniaeth. Mae'r cwestiwn o bwy ydym ni bob amser yn gysylltiedig â'r atgof o bwy y buom ni, a dychmygu'r hyn y gallem fod (Henriques et al. 1998); ac, yn yr un modd, mae'r dyfodol yn aml yn cael ei blagio gan fwganod y gorffennol, sy'n effeithio ar y presennol (De Beauvoir 1949). Am y rhesymau hyn, mae pob math o ymchwiliad ansoddol agored yn gallu dod ag atgofion poenus a phryderon ynghylch ein hunain yn y dyfodol i'r amlwg: ac ystyriwyd hyn yn ofalus ar ddechrau'r prosiectau ymchwil.

Yn ddiddorol, nid oedd yr un o'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ail astudiaeth wedi dangos gofid amlwg wrth drafod eu golygfeydd tywod, hyd yn oed wrth ddisgrifio'r hyn y gallai oedolion ei ystyried yn ddigwyddiadau trawmatig. Efallai bod hyn yn dystiolaeth o wytnwch plant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal, neu'n adlewyrchu cynefindra blinedig â rhannu manylion am eu bywydau personol ag oedolion nad ydynt yn gyfarwydd iddynt. Roedd y potensial i ennyn ymatebion emosiynol trwy 'greu blwch tywod' wedi ysgogi achos o ddatgelu mater diogelu. Fodd bynnag, cyhyd â bod ymchwilwyr wedi'u hyfforddi'n briodol, ac yn gallu ac yn barod i ymdrin â datgeliadau, mae'r ddadl yn erbyn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ymchwil ar lefel affeithiol rhag ofn y bydd hyn yn digwydd, yn anfoddhaol. Gall darparu modd i gyfranogwyr archwilio elfennau affaith yn eu profiadau roi cyfle pwysig i blant a phobl ifanc sicrhau bod eu teimladau'n cael eu cydnabod a'u clywed. Yn ogystal, ni ddylid ofni datgeliadau ond, yn hytrach, eu hystyried yn rhywbeth a allai gyfrannu at wella diogelwch a lles plentyn neu berson ifanc.

Yn ôl Lowenfeld (1950), gall y weithred o greu byd ynddi'i hun ddechrau'r broses o wella cynnwrf ac anesmwythder rhai plant. Yn amlwg, nid proses therapiwtig oedd hon yn y naill astudiaeth na'r llall, ac yn astudiaeth un roedd y gwaith gydag oedolion. O ran y myfyrwyr aeddfed, dywedodd y

Lawrlwythwyd gan [88.109.46.68] am 11:55 11 Rhagfyr 2017

cyfranogwyr fod ‘creu blwch tywod’ yn gathartig i ryw raddau: ac roeddent yn adnabod elfennau taith gyffredin yn yr ymchwilwyr a ysgogodd ryw fath o gefnogaeth. Yn yr un modd, siaradodd y plant a’r bobl ifanc yn gadarnhaol am greu eu golygfeydd tywod a gallu arwain y drafodaeth am eu profiadau gyda’r ymchwilwyr. Mae Lowenfeld (1950) yn dadlau bod profiad mewnol yn bodoli mewn plant ac oedolion sy'n parhau drwy gydol bywyd a’i fod yn aruthrol o bwysig, ond heb ei astudio’n ddigonol hyd yma: a dyma’r agwedd ar y bywyd mewnol y gall ‘creu blwch tywod’ ei hysgogi.

Mantais arall ‘creu blwch tywod’ yw nad yw’n cynnwys yr anawsterau moesegol sy’n gysylltiedig â lledaenu ffotograffau a mathau eraill o ddata y gellir eu hadnabod. Mae llawer o ymgysylltiad prif ffrwd â moeseg ymchwil weledol yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag anhysbysrwydd, sy’n golygu bod y pwyslais ar bwy sy’n tynnu’r llun, pwy sydd yn y llun; a beth arall y gellir ei wybod o ddaearyddiaeth neu berthnasedd y ddelwedd. Felly, mae 'drysfa foesol moeseg delweddau' (Prosser 2000) wedi bod yn troi o amgylch cydsyniad gwybodus a’r tyndra rhwng datgelu a chelu cynnwys delweddau gweledol a phwy sydd ‘â’r hawl’ i honni perchenogaeth o ddelweddau er mwyn, yn ei dro, golygu eu cynnwys a’u dangos i bobl eraill (Allen 2015; Cox et al. 2014; Lomax et al. 2011; Renold et al. 2008; Wiles et al. (2008).

Mewn ymateb i'r materion hyn, mae ymchwilwyr wedi ceisio darganfod ffyrdd newydd o gyfleu canfyddiadau eu hymchwil heb ddelweddau gweledol neu gyfeiriadau testunol a allai amharu ar eu perthynas â chyfranogwyr a pheryglu anhysbysrwydd. A hynny ar yr un pryd â chynnal effaith yr adroddiadau hyn. Mae natur generig ffigurau ‘creu blwch tywod’ a’r diffyg ymlyniad wrth gyfranogwyr unigol y tu hwnt i natur leoliadol a byrhoedlog y gwaith maes, yn golygu y gellir eu defnyddio mewn strategaethau lledaenu sy’n foesegol, ac eto’n ddylanwadol.

SYLWADAU I GLOI

Trafododd y papur hwn ba mor ddefnyddiol yw ‘creu blwch tywod’ fel offeryn ymchwil ansoddol yn ogystal ag adlewyrchu’r anawsterau sy’n gysylltiedig â’r dull; gan ddadlau y gallai amharodrwydd i ddefnyddio dulliau wedi’u llywio gan seicdreiddio y tu allan i leoliadau therapi atal dealltwriaeth graffach o brofiad byw goddrychol y cyfranogwyr. Gellir ystyried y gweledol fel ‘modd o ymchwilio a chynrychioli, ac fel modd o ledaenu ac ymgysylltu’ (Mitchell 2011, 5); ac mae’r papur wedi dangos y ffyrdd y gellir defnyddio ‘creu blwch tywod’ fel offeryn amlfoddol mewn ymchwil ansoddol.

O ran ymchwiliad, cynigiodd y dull safle agored lle’r oedd creu bydoedd yn cyfyngu ar y duedd i adroddiadau’r cyfranogwyr gael eu bwrw i’r cysgod gan fyd caeëdig, hunangynhwysol dealltwriaeth gyffredin (Mannay 2010); gan ymladd yn erbyn cynefindra (Delamont ac Atkinson 1995). Roedd yr offer a ddefnyddiwyd yn cynnig lefel o hylifedd nad yw’n bosibl wrth ddefnyddio technegau gweledol eraill o gynhyrchu data. Ysgogodd y rhyddid cymharol hwn fathau o ddatgynefino, a ddangosir trwy’r ffyrdd ymatblyg y cynrychiolodd y cyfranogwyr eu bydoedd goddrychol (Gurevitch 1998); a’u cyfleu yn y cyfweliadau darganfod cysylltiedig.

Yr hyn sy’n bwysig yw bod y themâu a gododd o’r gwaith maes a drafodir yma wedi cael eu harchwilio’n ddiweddarach mewn perthynas â sut y gellid gwella profiadau addysgol. Yn unol â hynny, defnyddiodd yr ymchwil adroddiadau affeithiol y cyfranogwyr i ddylanwadu ar bolisi ac arfer gorau; gyda’r nod o wella profiadau, cyfraddau cadw a llwyddiant myfyrwyr aeddfed; neu chwalu rhwystrau addysgol i blant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal. Hyd yma, mae’r adroddiadau gweledol a naratif hyn wedi cael eu defnyddio i ymgysylltu â gweinyddiaeth sefydliadol mewn gwahanol ffyrdd.

Roedd canfyddiadau’r astudiaeth â myfyrwyr aeddfed wedi creu achos dros sefydlu clwb coffi, ffurfio fframwaith cymorth a mynd i’r afael ag effeithiau pryderus yr ynysu a brofir gan y myfyrwyr hyn. Roedd yr ymchwil â phlant a phobl ifanc a chanddynt brofiad o ofal wedi llywio strategaeth Llywodraeth Cymru ‘Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.’ Yn ogystal, mae allbynnau gweledol o astudiaeth dau, gan gynnwys pedair ffilm fer sy'n cynnwys

ffigurau ‘creu blwch tywod’ unigol[5], wedi cael eu defnyddio i gyfleu’r canfyddiadau i bobl ifanc ac ymarferwyr. Mae hyn yn dangos y ffyrdd y gall y gweledol hefyd fod yn offeryn defnyddiol wrth gyfleu canfyddiadau i’r cyhoedd ehangach a chynyddu effaith ymchwil (Mannay 2016).

Mae hefyd yn werth nodi’n fyr y posibiliadau ar gyfer defnyddio ‘creu blwch tywod’ wrth addysgu, yr ydym wedi’u defnyddio gyda myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig, ar draws disgyblaethau academaidd. Mae ysgogi affaith yn ffordd ddefnyddiol o feithrin ymatblygedd ar gyfer myfyrwyr sy’n wynebu disgwyliadau, cysyniadau, ieithoedd ac addysgeg newydd a phenodol addysg uwch. Mae ‘creu blwch tywod’ yn darparu ffordd weithredol a hygyrch i fyfyrwyr ddechrau amgyffred syniad sylfaenol 'y dychymyg cymdeithasegol' (Wright Mills 1959). Trwy leoli eu hunain fel goddrych a chynulleidfa, gan ddehongli eu profiadau yng nghyd-destun byd gweledol, gellid datblygu ‘gallu [myfyrwyr] i amrywio o’r trawsffurfiadau mwyaf amhersonol a phell i nodweddion mwyaf personol yr hunan dynol – ac i weld y cysylltiadau rhwng y ddau’ (Wright Mills 1959, 7). Yn unol â hynny, gellid amlinellu’r berthynas rhwng hunaniaeth, hanes, celf a chymdeithasoldeb, gan feithrin meddwl yn feirniadol.

Mae gwaith Lowenfeld yn cael ei ddefnyddio’n aml mewn therapi chwarae, seicotherapi oedolion a therapi teuluol (Hutton 2004), sy’n dangos pa mor ddefnyddiol ac arloesol yw ei syniadau a’i threiddgarwch gwreiddiol. Gan gyfeirio at y 'dechneg creu byd', mae Lowenfeld (1950, 325) yn ysgrifennu, ‘Rwyf yn awyddus i sicrhau nad yw fy null ymchwil a therapiwtig cyfan, y mae’r offer hyn yn rhan ohono, yn cael ei gamddeall neu ei ystumio pan fenthycir ac addasir rhan o’r offer at ddiben gwahanol’. Wrth ddefnyddio ei thechneg y tu allan i’r clinig, gobeithiwn y byddai Lowenfeld yn credu bod y datblygiad hwn yn parchu ei gwaith seicdreiddiol gwreiddiol a’i botensial fel offeryn ymchwilio ansoddol. Mae'r papur hwn wedi bod yn ymwneud â sefydlu ‘creu blwch tywod’ fel offeryn ymchwilio ansoddol parchus; i ymestyn paramedrau dulliau gweledol, i ymladd yn erbyn cynefindra, i ymgysylltu â bydoedd goddrychol cyfranogwyr, i ehangu potensial cyfranogol ymchwil ansoddol, i ymgysylltu â lledaenu moesegol ac eto dylanwadol; ac, yn y pen draw, i gyfrannu at fentrau polisi gwybodus.

CYDNABYDDIAETH

Hoffem gydnabod yr oedolion, a’r plant a'r bobl ifanc a wnaeth y papur hwn yn bosibl. O ran astudiaeth un, rydym yn ddiolchgar am gyllid o Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedigion Caerdydd (CUROP). Comisiynwyd yr ail brosiect ymchwil y mae’r papur hwn yn deillio ohono gan Lywodraeth Cymru. O ran Astudiaeth Dau, hoffem hefyd ddiolch i’r ymchwilwyr doethurol a’r ymchwilwyr cymheiriaid a gynorthwyodd â’r gwaith maes, Louisa Roberts a weinyddodd y prosiect, yr Athro Sally Holland am gysyniadoli dyluniad yr ymchwil, a phartneriaid y prosiect, sef y Rhwydwaith Maethu, Voices From Care Cymru a Spice Innovate. Roedd yr astudiaeth wedi’i lleoli yn y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd, y mae ei gwaith yn ymwneud â phob agwedd ar ymatebion yn y gymuned i anghenion cymdeithasol mewn plant a theuluoedd. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro David James a’r adolygwyr am eu hanogaeth a'u sylwadau amhrisiadwy ar ddrafftiau cynharach o'r papur hwn, a thîm golygyddol Visual Studies am eu cymorth.

DATGANIAD DATGELU

Nid oedd yr awduron wedi adrodd am unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

CYLLID

Ariannwyd Astudiaeth Un gan Raglen

Cyfleoedd Ymchwil Israddedigion Caerdydd (CUROP). Comisiynwyd Astudiaeth Dau gan Lywodraeth Cymru.

NODIADAU

1. Y rhaglen benodol i gael mynediad at addysg uwch oedd cwblhau 60 credyd ar lefel israddedig 4. Astudiwyd modiwlau'n rhan-amser yn ystod un flwyddyn academaidd. Roedd y 60 credyd yn cyfateb i 50 y cant o'r rhaglen radd israddedig blwyddyn gyntaf, felly roedd angen i fyfyrwyr a oedd yn symud o'r llwybr hwn i astudiaethau gradd pellach gofrestru ar gyfer 60 credyd yn unig yn hytrach na'r 120 credyd safonol. Cynlluniwyd y llwybr hwn i ehangu cyfranogiad ac fe'i cyflwynwyd am y tro cyntaf ar adeg yr astudiaeth.

2. Ariannwyd y prosiect ymchwil, 'Her Brifysgol: Sut gallwn feithrin teithiau dysgu llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr annhraddodiadol'? gan Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP).

3. Comisiynwyd y prosiect ymchwil, 'Deall profiadau addysgol a safbwyntiau, cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru', gan Lywodraeth Cymru, a chynhaliwyd y prosiect gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd.

CYFEIRIADAU

Abrahams, J., ac N. Ingram. 2013. "The Chameleon Habitus: Exploring Local Students' Negotiations of Multiple Fields." Sociological Research Online 18 (4): 21. doi:10.5153/sro.3189.

Allen, L. 2015. "Losing Face? Photo-Anonymisation and Visual Research Integrity." Visual Studies 30 (3): 295–308. doi:10.1080/1472586X.2015.1016741.

Banks, M. 2001. Visual Methods in Social Research. Llundain: Sage.

Belin, R. 2005. "Photo-Elicitation and the Agricultural Landscape: 'Seeing' and 'Telling' about Farming, Community and Place." Visual Studies 20 (1): 56–68. doi:10.1080/14725860500064904.

Briheim-Crookall, L. 2016. How Social Workers Can Track and Boost the Happiness of Looked-After Children. Sutton: Community Care. [Cyrchwyd 16 Ionawr 2017]. Ar gael yn http://www.communitycare.co.uk/2016/03/22/social-work ers-can-track-boost-happiness-looked-children/

Cox, S., S. Drew, M. Guillemin, C. Howell, D. Warr, a J. Waycott. 2014. Guidelines for Ethical Visual Research Methods. Melbourne: Prifysgol Melbourne.

Currie, J., P. Harris, a B. Thiele. 2000. "Sacrifices in Greedy Universities: Are They Gendered?" Gender and Education 12 (3): 269–291. doi:10.1080/713668305.

De Beauvoir, S. 1949. The Second Sex. Llundain: Penguin.

Delamont, S., a P. Atkinson. 1995. Fighting Familiarity: Essays on Education and Ethnography. Cresskill, NJ: Hampton Press. Edwards, R. 1993. Mature Women Students: Separating or Connecting Family and Education. Llundain: Taylor Francis.

Fink, J. 2012. “Walking the Neighbourhood, Seeing the Small Details of Community Life: Reflections from a Photography Walking Tour.” Critical Social Policy 32 (1): 31–50. doi:10.1177/0261018311425198.

Frosh, S. 2010. Psychoanalysis outside the Clinic: Interventions in Psychosocial Studies. Basingstoke: Macmillan.

Frosh, S., a P. Emerson. 2005. “Interpretation and Over- Interpretation: Disrupting the Meaning of Texts.” Qualitative Research 5 (5): 307–324. doi:10.1177/ 1468794105054457.

Gadd, D. a T. Jefferson. 2007. Psychosocial Criminology. Llundain: Sage.

Garland, P. 1994. “Educating Rhian: Experiences of Mature Women Students.” In Our Sisters’ Land: The Changing Identities of Women in Wales, goln J. Aaron, T. Rees, S. Betts, ac M. Vincentelli, 107–121. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Gauntlett, D., a P. Holzwarth. 2006. “Creative and Visual Methods for Exploring Identities.” Visual Studies 21 (1): 82–91. doi:10.1080/14725860600613261.

Groundwater-Smith, S., S. Dockett, a D. Bottrell. 2015.

Participatory Research with Children and Young People. Llundain: Sage.

Gurevitch, Z. D. 1998. “The Other Side of Dialogue: On Making the Other Strange and the Experience of Otherness.” American Journal of Sociology 93 (5): 1179– 1199. doi:10.1086/228868.

Henriques, J., W. Holloway, C. Urwin, C. Venn, a V. Walkerdine. 1998. Changing the Subject. Llundain: Routledge.

Hinthorne, L. L., a K. Schneider. 2012. “Playing with Purpose: Using Serious Play to Enhance Participatory Development Communication in Research.” International Journal of Communication 6: 2801-2824.

Hoggett, P., S. Beedell, L. Jimenez, M. Mayo, a C. Miller. 2010. “Working Psychosocially and Dialogically in Research.” Psychoanalysis, Culture and Society 15 (2): 173–188. doi:10.1057/pcs.2009.36.

Holland, S., E. Renold, N. J. Ross, ac A. Hillman. 2010. “Power, Agency and Participatory Agendas: A Critical Exploration of Young People’s Engagement in Participative Qualitative Research.” Childhood 17 (3): 360–375. doi:10.1177/0907568210369310.

Hollway, W., a T. Jefferson. 2013. Doing Qualitative Research Differently. 2il arg. Llundain: Sage.

Howard, J. K. ac S. A. Eckhardt. 2005. “Why Action Research? The Leadership Role of the Library Media Specialist.” Library Media Connection 24 (2): 32 – 34.

Hutton, D. 2004. “Margret Lowenfeld’s World Technique.” Clinical Child Psychology and Psychiatry 9 (4): 605–612. doi:10.1177/1359104504046164.

Irigaray, L. 1985. Speculum of the Other Woman. Cornell: Gwasg Prifysgol Cornell

Irigaray, L. 2008. Sharing the World. Llundain: Continuum.

Jackson, S., ac I. Höjer. 2013. “Prioritising Education for Children Looked after Away from Home.” European Journal of Social Work 16 (1): 1–5. doi:10.1080/ 13691457.2012.763108.

James, A., ac A. Prout. goln. 1997. Constructing and Reconstructing Childhood: Contemporary Issues in the Sociological Study of Childhood. Abingdon: Routledge. James, D. 1995. “Mature Studentship

in Higher Education: Beyond a ‘Species’ Approach.” British Journal of Sociology of Education 16 (4): 451–466. doi:10.1080/ 0142569950160402.

Johnson, G. A., E. A. Pfister, a C. Vindrola-Padros. 2012. “Drawings, Photos, and Performances: Using Visual Methods with Children.” Visual Anthropology Review 28 (2): 164–177. doi:10.1111/j.1548-7458.2012.01122.x.

Kaomea, J. 2003. “Reading Erasures and Making the Familiar Strange: Defamiliarising Methods for Research in Formerly Colonized and Historically Oppressed Communities.” Educational Researcher 32 (2): 14–25. doi:10.3102/0013189X032002014.

Kara, H. 2015. Creative Research Methods in the Social Sciences: A Practical Guide. Bryste: Policy Press.

Kim, C.Y. 2015. “Why Research ‘By’ Children? Rethinking the Assumptions Underlying the Facilitation of Children as Researchers.” Children & Society. doi:10.1111/chso.12133.

Lacan, J. 1978. “The Split between the Eye and the Gaze.” Yn Four Fundamental Concepts of Psychoanalysis, golygwyd gan J. A. Miller, 67 – 78. Efrog Newydd: W.W. Norton.

Lacan, J. 1977. “The Mirror Stage as Formative as the Function of the I as Revealed in Psycholanalytic Experience.” Yn Ecrits: A Selection, cyfieithwyd gan A. Sheridan. Efrog Newydd: WW Norton.

Lomax, H., J. Fink, N. Singh, a C. High. 2011. “The Politics of Performance: Methodological Challenges of Researching Children’s Experiences of Childhood through the Lens of Participatory Video.” International Journal of Social Research Methodology 14 (3): 231–243. doi:10.1080/ 13645579.

Lowenfeld, M. 1939. “The World Pictures of Children.” British Journal of Medical Psychology 18: 65–101. doi:10.1111/ j.2044-8341.1939.tb00710.x.

Lowenfeld, M. 1950. “The Nature and Use of the Lowenfeld World Technique in Work with Children and Adults.” The Journal of Psychology 30 (2): 325 – 331.

Lowenfeld, M. 1979. The World Technique. Llundain: Allen and Uwin Press.

Luttrell, W., ac R. Chalfen. 2010. “Lifting Up the Voices of Participatory Research.” Visual Studies 25 (3): 197–200. doi:10.1080/1472586X.2010.523270.

Mannay, D. 2010. “Making the Familiar Strange: Can Visual Research Methods Render the Familiar Setting More Perceptible?” Qualitative Research 10 (1): 91–111. doi:10.1177/1468794109348684.

Mannay, D. 2013a. “‘Who Put that on There . . . Why Why Why?’ Power Games and Participatory Techniques of Visual Data Production.” Visual Studies 28 (2): 136–146. doi:10.1080/1472586X.2013.801635.

Mannay, D. 2013b. “The Permeating Presence of past Domestic and Familial Violence: So like I’d Never Let Anyone Hit Me but I’ve Hit Them, and I Shouldn’t Have Done.” Yn Family Troubles? Exploring Changes and Challenges in the Family Lives of Children and Young People, goln V. Gillies, C. A. Hooper, a J. Ribbens McCarthy, 151-162. Bryste: Policy Press.

Mannay, D. 2016. Visual, Narrative and Creative Research Methods: Application, Reflection and Ethics. Abingdon: Routledge.

Mannay, D., E. Staples, S. Hallett, L. Roberts, A. Rees, R. Evans, a D. Andrews. 2015. Understanding the Educational Experiences and Opinions, Attainment, Achievement and Aspirations of Looked after

Children in Wales. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn http://gov.wales/statis tics-and-research/understanding-educational-experiencesopinions-attainment-achievement-aspirations-lookedafter-children-wales/?lang=en

Mannay, D. ac M. Morgan. 2013. “Anatomies of Inequality: Considering the Emotional Cost of Aiming Higher for Marginalised, Mature, Mothers Re-Entering Education.” Journal of Adult and Continuing Education 19 (1): 57–75. doi:10.7227/JACE.19.1.5.

Mannay, D., R. Evans, E. Staples, S. Hallett, L. Roberts, A. Rees, a D. Andrews. 2017. “The Consequences of Being Labelled ‘Looked-After’: Exploring the Educational Experiences of Looked-After Children and Young People in Wales.” British Journal of Educational Research. (yn y wasg). doi:10.1002/berj.3283

McLeod, A. 2007. “Whose Agenda? Issues of Power and Relationship When Listening to Looked-After Young People.” Child and Family Social Work 12 (3): 278–286. doi:10.1111/j.1365-2206.2007.00493.x.

McLeod, A. 2010. “‘A Friend and an Equal’: Do Young People in Care Seek the Impossible from Their Social Workers?” British Journal of Social Work 40: 772–788. doi:10.1093/ bjsw/bcn143.

Midgley, N. 2006. “Psychoanalysis and Qualitative Psychology: Complementary or Contradictory Paradigms?” Qualitative Research in Psychology 3 (3): 213–231. doi:10.1191/1478088706qrp065oa.

Mitchell, C. 2011. Doing Visual Research. Llundain: Sage.

Mitchell, W. J. T. 2002. “Showing Seeing: A Critique of Visual Culture.” Journal of Visual Culture 1 (2): 165–181. doi:10.1177/147041290200100202.

Mizen, P. 2005. “A Little ‘Light Work’? Children’s Images of Their Labour.” Visual Studies 20 (2): 124–139. doi:10.1080/14725860500244001.

O'Kane, C. 2008. “The Development of Participatory Techniques: Facilitating Children’s Views about Decisions Which Affect Them.” Yn Research with Children: Perspectives and Practices, goln P. M. Christensen ac A. James. Llundain: Routledge.

Payne, L. 2009. “Twenty Years On: The Implementation of the UN Convention on the Rights of the Child in the United Kingdom.” Children and Society 23 (1): 16–28. doi:10.1111/j.1099-0860.2008.00212.x.

Pink, S. 2004. “Applied Visual Anthropology Social Intervention, Visual Methodologies and Anthropology Theory.” Visual Anthropology Review 20 (1): 3–16. doi:10.1525/var.2004.20.1.3.

Prosser, J. 2000. "The Moral Maze of Image Ethics." Yn Situated Ethics in Educational Research, golygwyd gan H. Simons, ac R. Usher, 116–132. Llundain: Routledge Falmer.

Radley, A. 2011. “Image and Imagination.” Yn Visual Methods in Psychology: Using and Interpreting Images in Qualitative Research, gol. P. Reavey, 17–28. Llundain: Routledge.

Reavey, P. 2011. “The Return to Experience: Psychology and the Visual’.” Yn Visual Methods in Psychology: Using and Interpreting Images in Qualitative Research, gol. P. Reavey, 1–16. Llundain: Routledge.

Reay, D. 2004. “Mostly Roughs and Toughs’: Social Class, Race and Representation in Inner City Schooling.” Sociology 35 (5): 1005–1023. doi:10.1177/0038038504047183.

Reay, D., G. Crozier, a J. Clayton. 2010. ““Fitting In” or “Standing Out’: Working-Class Students in UK Higher Education.” British Educational Research Journal 32 (1): 1–19.

Renold, E., S. Holland, N. Ross, ac A. Hillman. 2008. “Becoming Participant: Problematizing Informed Consent in Participatory Research with Young People in Care.” Qualitative Social Work 7 (4): 427–447. doi:10.1177/ 1473325008097139.

Richardson, M. J. 2015. “Embodied Intergenerationality: Family Position, Place and Masculinity.” Gender, Place & Culture: A Journal of Feminist Geography 22 (2): 157–171. doi:10.1080/0966369X.2013.855710.

Rock, P. 2007. “Symbolic Interactionism and Ethnography.” Yn Handbook of Ethnography, goln P. Atkinson, A. Coffey, S. Delamont, J. Lofland, ac L. Lofland, 26–38. Llundain: Sage.

Rose, G. 2001. Visual Methodologies. Llundain: Sage.

Ross, N. J., E. Renold, S. Holland, ac A. Hillman. 2009. “Moving Stories: Using Mobile Methods to Explore the Everyday Lives of Young People in Public Care.” Qualitative Research 9 (5): 605–623. doi:10.1177/ 1468794109343629.

Sangganjanavanich, V. F. ac S. Magnuson. 2011. “Using Sand Trays and Miniature Figures to Facilitate Career Decision Making.” The Career Development Quarterly 59: 264–273. doi:10.1002/(ISSN)2161-0045.

Spencer, S. 2011. Visual Research Methods in the Social Science: Awakening Visions. Llundain: Routledge.

Staples, E. M. 2012. Sure Start’s sacrifice: An Irigarayan analysis of the phallogocentric devaluation of mother-work in New Labour social policy discourse. Traethawd ymchwil PhD heb ei gyhoeddi. Prifysgol Bryste.

Steedman, C. 1986. Landscape for A Good Woman: A Story of Two Women. Llundain: Virago.

Thompson, R., a J. Holland. 2005. “Thanks for the Memory: Memory Books as a Methodological Resource in Biographical Research.” Qualitative Research 5 (2): 201– 219. doi:10.1177/1468794105050835.

Walkerdine, V. 1998. Daddy’s Girl: Young Girls and Popular Culture. Cambridge, MA: Gwasg Prifysgol Harvard.

Walkerdine, V., H. Lucey, a J. Melody. 2001. Growing up Girl. Basingstoke: Palgrave:

Weinrib, E. L. 2004. Images of the Self: The Sandplay Therapy Process. Cloverdale, CA: Temenos.

White, E. J. 2015. “Seeing Is Believing? Insights from Young Children in Nature.” International Journal of Early Childhood 47 (1): 171–188. doi:10.1007/s13158-014-0118-5.

Wiles, R., J. Prosser, A. Bagnoli, A. Clarke, K. Davies, S. Holland, ac E. Renold. 2008. Visual Ethics: Ethical Issues in Visual Research (ESRC National Centre for Research Method Review Paper NCRM/011). Southampton: Canolfan Genedlaethol Dulliau Ymchwil yr ESRC, Prifysgol Southampton.

Winter, K. 2006. “Widening Our Knowledge Concerning Young Looked after Children: The Case for Research Using Sociological Models of Childhood.” Child and Family Social Work 11: 55–64. doi:10.1111/j.1365-2206.2006.00385.x.

Wright Mills, C. 1959. The Sociological Imagination. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.